**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**Cynnig i ethol Aelodau i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol**
**NDM2568 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â pharagraffau 1 (1) a 4 o Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi'r personau canlynol i fod yn aelodau o'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol:

Y Cyng Emlyn Davies o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn lle'r Cyng Dai Lloyd Evans o Gyngor Sir Ceredigion.

Y Cyng Raymond Thomas o Awdurdod Heddlu De Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn lle'r Cyng Haydn Lewis o Awdurdod Heddlu Dyfed Powys.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 35; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 35
**Derbyniwyd y cynnig**

**2.01pm**
**Cwestiynau i'r Prif Weinidog**
Gofynnwyd y 13 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 5 yn ôl.

**Croesawodd y Llywydd ddirprwyaeth o arweinwyr yr eglwys o Lesotho**

**2.48pm**
**Cwestiwn Brys**
**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr achosion E.coli yng Nghymru, gan nodi a yw'n bwriadu galw am ymchwiliad i'r achosion.

**3.07pm**
**Cynnig i gael dadl o dan Reol Sefydlog 6.10 i ystyried yr achosion e.coli yng Nghymru**

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 57; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 57
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.12pm**
**Datganiad Busnes**
Bu i dros 10 Aelod wrthwynebu'r datganiad busnes.
**Cynhaliwyd pleidlais ar y datganiad busnes:**
O Blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 57``````````````````````````````````
**Gwrthodwyd y datganiad busnes**.

**3.24pm**
***Cynnig i drafod y 2 eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân***

**Rheoliadau Tai (Hawl Cynnig Cyntaf) (Cymru) 2005 o dan Reol Sefydlog 24.27**
NDM2569 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Tai (Hawl Cynnig Cyntaf) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Medi 2005.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**

**Gwelliant 1 - David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cytuno bod yn rhaid i'r landlord preswyl, pan fydd yn prynu eiddo, dalu pris y farchnad yn llawn yn seiliedig ar brisiad annibynnol, oni hysbysir y tenant fel arall pan fydd yn arfer ei opsiwn hawl i brynu i ddechrau.

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1 i egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 8; Ymatal 6; Yn erbyn 31; Cyfanswm 45
**Gwrthodwyd Gwelliant 1 i egwyddor y Rheoliadau**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 46; Ymatal 1; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

**NDM2570 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo gwneud Rheoliadau Tai (Hawl Cynnig Cyntaf) (Cymru) 2005 yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Medi 2005.

Noder: Ni chyflwynwyd Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn; mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion gweithdrefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii)

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Gwybodaeth i Denantiaid Diogel) (Cymru) 2005 o dan Reol Sefydlog 24.27**
**NDM2571 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Gwybodaeth i Denantiaid Diogel) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Medi 2005.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1 - David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cytuno y dylid darparu gwybodaeth am delerau ac amodau sy'n berthnasol i unrhyw ostyngiad o dan yr hawl i brynu, mewn achos o ailwerthu cynnar neu ddefnydd nad yw at ddibenion preswyl gan y prynwr, fel rhan o'r ddogfen a gyhoeddir gan y landlord.

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1 i egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 13; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 1 i egwyddor y Gorchymyn**

**Gwelliant 2 - David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cytuno y dylid darparu gwybodaeth am bwysigrwydd cysylltu â benthyciwr cyn gynted ag y bydd unrhyw anawsterau ariannol yn codi fel rhan o'r ddogfen a gyhoeddir gan y landlord.

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2 i egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 14; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 2 i egwyddor y Gorchymyn**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn, fel y'i diwygiwyd**

O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

**NDM2572 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo gwneud Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Gwybodaeth i Denantiaid Diogel) (Cymru) 2005 yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Medi 2005.

*Noder: Ni chyflwynwyd Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn; mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso’r gofynion gweithdrefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii)*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0 ; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

***Cynnig i drafod y 2 eitem ganlynol gyda’i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân***

**3.43pm**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005**
**NDM2573 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Medi 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

**NDM2574 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Medi 2005 mewn perthynas â’r Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Medi 2005,
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Medi 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadu Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005**
**NDM2575 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadu Cyn-gychwyn) Cymru 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Medi 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

**NDM2576 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Medi 2005 mewn perthynas â’r Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadu Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005 drafft

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadu Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Medi 2005,
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Medi 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**

O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

3.50pm

**Cynnig i gymeradwyo’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu o dan Reol Sefydlog 29 .3 (iii)**
**NDM2577 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Medi 2005**.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd egwyddor y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

**NDM2578 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 29.3 (iii) yn cymeradwyo’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Medi 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

3.53pm

**Cynnig i gymeradwyo Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad 2005/06 o dan Reol Sefydlog 29.3 (iii)**
**NDM2579 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Cynllun Grant Dysgu’r Cynulliad ar gyfer 2005/06 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 20 Medi 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad 2005/06**

O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd egwyddor Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad 2005/06**

**NDM2580 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 29.3 (iii) yn cymeradwyo Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad ar gyfer 2005/06, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Medi 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar Gynllun Grant Dysgu'r Cynulliad 2005/06**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad 2005/06**

4.00pm

**Cynnig i gymeradwyo'r Trefniadau Gweinyddol o dan Adran 14 Deddf Addysg 2002 sy'n Rheoli Talu Lwfans Cynhaliaeth Addysg (Cynllun) o dan Reol Sefydlog 29.3(iii)**
**NDM2581 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor y Trefniadau Gweinyddol o dan Adran 14 Deddf Addysg 2002 sy'n Rheoli Talu Lwfans Cynhaliaeth Addysg (Cynllun), y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Medi 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Trefniadau Gweinyddol**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd egwyddor y Trefniadau Gweinyddol**

**NDM2582 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 29.3 (iii) yn cymeradwyo'r Trefniadau Gweinyddol o dan Adran 14 Deddf Addysg 2002 sy'n Rheoli Talu Lwfans Cynhaliaeth Addysg (Cynllun), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 20 Medi 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Trefniadau Gweinyddol**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd y Trefniadau Gweinyddol**

4.01pm

**Dadl wedi'i henwebu gan y Blaid Geidwadol**
**NDM2567 David Melding (Canol De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei pholisi ynni adnewyddadwy, ac ailddrafftio TAN 8 fel bod yr orddibyniaeth ar bwer gwynt yn cael ei ddisodli gan amrywiaeth lawn o ffynonellau ynni amgen.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Dileu popeth ar ôl ‘Cynulliad Cenedlaethol Cymru’ ac ychwanegu:

1. Yn nodi polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i liniaru newid yn yr hinsawdd.

2. Yn cyfarwyddo’r Llywodraeth i fuddsoddi ym mhob technoleg ynni adnewyddadwy i helpu i fodloni ei thargedau yn 2010.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella diogelwch ynni drwy gynhyrchu ynni yn lleol er budd cymunedau lleol a lleihau tlodi o ran ynni drwy ymgyrch arbed ynni yng Nghymru.

**Gwelliant 1**
O Blaid 6; Ymatal 9; Yn erbyn 40; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu popeth ar ôl adnewyddadwy ac yn ei le rhoi:

' ac yn galw ar y Llywodraeth i wyrdroi tuedd Llywodraethau blaenorol y DU a Llywodraeth bresennol y Cynulliad Cenedlaethol o danfuddsoddi mewn technolegau ynni adnewyddadwy amrywiol.'

**Gwelliant 2**
O Blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 39; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd at ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder ynghylch methiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyd-drafod datganoli penderfyniadau cynllunio ar brosiectau ynni dros 50 megawat yn llwyddiannus gyda'u cydweithwyr yn y DU.

**Gwelliant 3**
O Blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder y cyfyngiadau o ran lleoli unrhyw ddatblygiadau mewn technolegau adnewyddadwy yn sgîl cyflwr y Grid Cenedlaethol.

**Gwelliant 4**
O Blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Y cynnig**
O Blaid 11; Ymatal 10; Yn erbyn 34; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y cynnig**

**5.02pm**
**Dadl ar gynnig o dan Reol Sefydlog 31 a gyflwynwyd gan Val Lloyd**
**NDM2535 Val Lloyd (Dwyrain Abertawe)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 31.1, yn cefnogi, mewn egwyddor, ddeddfwriaeth a fydd:

Yn ei gwneud hi'n ofynnol ar bob Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru i enwi uwch gyfarwyddwr/wraig i fod yn gyfrifol am lendid ysbytai, a gosod yr ymrwymiad statudol canlynol ar y cyfarwyddwr/wraig a enwir felly:

a) I adrodd, ar sail chwarterol, i Fwrdd Llawn y Bwrdd, yn ystod rhan gyhoeddus agenda Bwrdd yr Ymddiriedolaeth honno.

b) I gyflwyno'r un adroddiad, ar sail chwarterol, i'r Cynghorau Iechyd Cymuned sy'n gwasanaethu'r Ymddiriedolaeth honno.

*Mae datganiad o'r pwerau cyfreithiol a fyddai'n caniatáu gwneud y ddeddfwriaeth a gynigir, ac arwydd o'r goblygiadau o ran adnoddau a deunyddiau eraill er mwyn helaethu ar y cynnig, fel a*

*ganlyn:*

Datganiad o Bwerau Cyfreithiol

Gellid cyflwyno deddfwriaeth i weithredu hyn dan Adran 17 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 sy'n rhoi pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol gyfarwyddo Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru.

Goblygiadau o ran adnoddau:

Mae gan bob Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru nifer penodol o gyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol. Bydd yr ymddiriedolaeth, yn ôl ei doethineb, yn dewis cyfarwyddwr/wraig sydd eisoes mewn swydd i fod yn gyfrifol am lendid ysbytai. Ni fydd y gofyniad hwn yn golygu unrhyw gynnydd mewn cydnabyddiaeth ac fe gyflawnir y dyletswyddau hyn dan y trefniadau cyllidebu cyfredol. Bydd unrhyw wariant brin werth sôn amdano.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43
**Derbyniwyd y cynnig**

## Daeth y cyfarfod i ben am 5.29pm

**......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 28 Medi 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

Medi 27, 2005

LD4034 - Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005
Ld4032 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005
Ld4033 - Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005

Medi 23, 2005

LD4029 - Adroddiad Ar Ddeddfwriaeth Sylfaenol Gan Bwyllgor Yr Amgylchedd, Cynllunio A Chefn Gwlad

LD4030 - Diogelu staff Ymddiriedolaethau’r GIG

Medi 22, 2005

LD4028 - Planning And Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No.4 And Consequential, Transitional And Savings Provisions) (Wales) Order 2005- Regulatory Proposal - Dim Copi Cymraeg Ar gael

Medi 20, 2005

LD4004 - LC1124 -Rheoliadau Addysg (Adolygu Strwythur Staffio) (Cymru) 2005
LD4005 - LC1125 - Rheoliadau Ffioedd mewn Sefydliadau Addysg Uwch (Cymru) 2005
LD4006 - LC1127 - Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005
LD4007 - LC1128 - Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005 LD4008 - Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2005
LD4009 - The Education (Assisted Places) (Amendment) (Wales) Regulations 2005- Regulatory Appraisal - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
LD4010 - Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2005
LD4011 - The Food Labelling (Amendment) (Wales) (No. 2) Regulations 2005- Regulatory Appraisal - Dim Copi Cymraeg Ar Gael LD4012 - Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005
LD4013 - Planning And Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No.4 and Consequential, Transitional and Savings Provisions) (Wales) Order 2005 - Regulatory Appraisal - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
LD4014 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005
LD4015 - The Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
LD4016 - Rheoliadau Adrodd ar Brisiau Cynhyrchion Llaeth (Cymru) 2005
LD4017 - Reporting Of Prices Of Milk Products (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - Dim Copi Cymraeg Ar Gael LD4018 - Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2005
LD4019 - The Education (Assisted Places) (Incidental Expenses) (Amendment) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
LD4020 - Gorchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005
LD4022 - The Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 (Commencement No. 1 and Transitional Provisions and Savings) Order 2005 - Regulatory Appraisal - Dim Copi Cymraeg Ar Gael
LD4023 - Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad 2005/06
LD4024 - Trefniadau Gweinyddu O Dan Adran 14 O Ddeddf Addysg 2002 Ar Gyfer Talu Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (Y Cynllun) LD4025 - Rheoliadau Tai (Hawl Cynnig Cyntaf)

(Cymru) 2005
LD4026 - Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Gwybodaeth i Denantiaid Diogel) (Cymru) 2005
LD4027 - Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu